

# *Archifau Morgannwg*



*DARGANFOD Y GORFFENNOL*

1 Mawrth 2018- 28 Chwefror 2019



Croeso i'n 9fed Adroddiad Blynyddol sy'n disgrifio gweithgareddau Archifau Morgannwg yn ystod y  
cyfnod o 1 Mawrth 2018 hyd at 28 Chwefror 2019

Cafodd ein statws Achrediad Archifau ei adolygu eleni a bydd yn parhau. Caiff achrediad ei gydnabod yn genedlaethol fel tystiolaeth o wasanaeth archifau o safon, ac mae gofyn i wasanaethau wedi'u hachredu ddangos tystiolaeth o ddull holistig a blaengar o ran cynllunio a gweithredu darpariaeth gwasanaeth, gan adnabod risgiau a chynllunio i'r dyfodol. Roedd aelodau'r Panel Achredu yn falch iawn o weld lefel cyflawniad gwasanaeth uchel parhaus, gan ganmol y rheolaeth a'r partneriaethau cryf sydd wedi cynnal ansawdd ein cynnig, er gwaetha'r heriau mawr o ran adnoddau yr ydym wedi'u hwynebu mewn blynyddoedd diweddar.

Mae partneriaethau'n fanteisiol drwy gyrraedd cymunedau na fyddai fel arall o bosibl yn defnyddio'r Archifau, gan alluogi staff i egluro'r gwasanaeth a datblygu sgiliau ymysg gwirfoddolwyr project. Gallent arwain at dderbynion mawr newydd, yn aml eisoes wedi'u rhestru a'u pecynnu, gan arbed amser staff a chostau. Mae'r Archifau wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran cynnal partneriaethau am gyfnod hirach nag un project, sy'n talu ar ei ganfed o ran datblygu enw da am fod yn agored a pharodrwydd i weithio â defnyddwyr newydd. Mae partneriaethau etifeddiaeth a gwirfoddolwyr yn fanteisiol iawn i amrywiaeth y Casgliad a'i ddefnyddwyr.

Dwy brif thema o ran partneriaid y llynedd oedd y Rhyfel Mawr a'r Cadoediad, ynghyd â'r camau cyntaf tuag at gael pleidlais i bawb, a ddathlwyd gan broiect Archifau Menywod Cymru, Canrif Gobaith/Century of Hope. Roedd staff yn gweithio ar ystod o weithgareddau gan gynnwys ail-greu'n rhannol gorymdaith heddwch Greenham Common yng Nghaerdydd ar hyd Pont Hafren gynt. Gwnaethom raliu gydag Amgueddfa Stori Caerdydd yn rhan o Processions, wedi'i gynhyrchu gan yr elusen gelfyddydau, Artichoke, i gofio am y frwydr dros y bleidlais i ferched, a hefyd gwnaethom fynychu darlith goffa flynyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Welsh Women's response to the First World War', a chynhadledd ar y Bleidlais a Chanlyniad y Rhyfel Mawr a gynhaliwyd gan Amgueddfa Stori Caerdydd. Datblygodd ein partneriaeth barhaus gyda'r Archifau Seneddol y thema, gyda chynhadledd hanner diwrnod ar 'Women, Parliament and the First World War' a gynhaliwyd yn yr Archifau fis Mai ochr yn ochr â'u harddangosfa, a gynhaliwyd ar y safle am ddau fis cyn teithio o amgylch y DU. Mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu at y project drwy ymchwilio i fywydau menywod oedd wedi'u cynnwys yng nghylchgrawn Eglwys Methodistiaidd Roath Road, o'r enw Roath Road Roamer, tra bod Cymdeithas Hanesyddol Leol Grangetown wedi ymchwilio i elynion diarth yng Nghaerdydd yn ystod y Rhyfel. Yn rhan o'n rhaglen digwyddiadau cyhoeddus, siaradodd aelodau'r Gymdeithas am y Rhyfel a'r epidemig fflw Sbaeneg ar ei ôl, a siaradodd Dr Jonathan Hicks am Gymru a'r rhyfel awyr cyntaf, a disgrifiodd Gwyn Prescott a Ceri Stennett eu gwaith ymchwil i fywydau'r rheiny sydd wedi'u coffa ar Gofeb Rhyfel Llyfrgell yr Eglwys Newydd.






Roedd arddangosfa ar gyfraniad swyddogion heddlu Morgannwg at y rhyfel, wedi'i chreu gan Heddlu De Cymru, yn y brif neuadd o fis Tachwedd. Defnyddiwyd gwaith ymchwil gwirfoddolwyr ar gychod a gafodd eu suddo gan weithrediad cychod-U yn rhan o broject Comisiwn Brenhinol Cofebion Hynafol a Hanesyddol (Cymru). Bu i broject 'Camaraderie' gan Artis Community ymchwilio i effaith y rhyfel drwy gelf mewn project pontio'r cenedlaethau gyda grŵp o gyn-filwyr a disgyblion Ysgol Uwchradd Pontypridd. Roedd eu te-parti'n ddigwyddiad braf iawn ar noson lawiog tu hwnt ym Mhontypridd. Gwnaeth Ysgol Uwchradd Hawthorn yn y dref gynnal gwaith ymchwil ar gyfer cyhoeddiad, 'Lest we forget', ac aethom i'w gwasanaeth y Cadoediad. Bu i Ysgol Gynradd Albany yng Nghaerdydd ail-greu ysbyty'r Rhyfel Mawr eto am ddiwrnod, lle roedd staff Archifau Morgannwg yn bresennol. Gweithiodd yr ysgol hefyd gyda'r Archifau Seneddol ar broject eleni. Roeddem hefyd yn bresennol yn ystod dydd Sadwrn gwlyb yn yr haf yn nigwyddiad Bridgend at War yn hyrwyddo'r Archifau ymysg preswylwyr ac ymwelwyr.

Mae gweithgareddau ymgysylltiad cyhoeddus eleni wedi cynnwys standin yn Y Lle Hanes yng Nghanolfan y Mileniwm yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol, stondinau yn Ffair Hanes Teuluol Merthyr Tudful, Diwrnod Agored Llyfrgell Treftadaeth Cathays a Diwrnod Treftadaeth Cwrt Insole. Yn ogystal, rydym wedi mynychu Fforwm Treftadaeth Merthyr Tudful a'r gynhadledd, cynhadledd Cymdeithas Hanes Leol Gelligaer, a Fforwm Addysg Treftadaeth De Cymru yn y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant. Cyfrannodd staff at ymgynghoriadau Cynllun Datblygu Rhanbarthol yn Nghaerffili a Merthyr Tudful, ac ar hyn o bryd maent yn gweithio gyda Chymdeithas Dysgedig Cymru a Chasgliad y Bobl Cymru i ddatblygu cydweithio rhwng gwasanaethau archif lleol, cyfrannu at raglenni Fusion yng Nghaerdydd a Chaerffili/Torfaen, ac maent hefyd yn helpu i sefydlu'r Gyfnewidfa Threftadaeth a Diwylliant yn Butetown.

Mae Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru yn broject a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ddatgelu, dogfennu, cadw a rhannu treftadaeth diwylliannol diriaethol ac anniriaethol cymunedau Iddewig de Cymru. Mae staff a gwirfoddolwyr project yn gweithio yn yr Archifau, a darparwyd cymorth cadwraeth ynghyd â chynghor archifol. Mae rhai cofnodion eisoes wedi'u derbyn ac mae disgwyl mwy ohonynt yn ystod bywyd y project.

Roeddem yn falch o weld dechrau ail breswylfa artist, wedi'i hariannu drwy ymdrechion ein partneriaid, Art Shell. Mae Fern Thomas, artist preswyl, yn cofnodi ei chanfyddiadau o'r Casgliad drwy gyfrif Liminal Archives ar Twitter ac Instagram. Rydym hefyd yn gweithio gyda Stiwdio Arts i ddathlu canmlwyddiant Ysbyty Rookwood a gwnaethom gynnal gweithdy i wirfoddolwyr yn ymchwilio i hanes yr adeilad.

Cafwyd grant i benodi'r haneswyr Daryl Leeworthy a Norena Shopland i greu canllaw ffynonellau hanes LHDT Cymru, sydd bellach ar gael ar ein gwefan. Cafodd y canllaw ei lansio mewn digwyddiad cyhoeddus yn yr Archifau, ac roedd digon o gaws a phrosecço i bawb! Mae cyllid grant pellach wedi galluogi cynnal hyfforddiant i weithwyr proffesiynol treftadaeth ledled Cymru i helpu ymchwilwyr gyda'r pwnc hwn, ac mae gan Norena Shopland gyfres o ddigwyddiadau sgwrsio i hyrwyddo'r canllaw ac, yn fwy cyffredinol, i ymchwilio i hanes LHDT.





Roedd arddangosfa Innovate Trust yn adrodd hanes llety â chymorth cyntaf y DU ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn Ruthin Gardens, Cathays, ar y cyd ag ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd. Treuliodd gwirfoddolwyr y project ddiwrnod gyda'r arddangosfa'n egluro'r cefndir i ymwelwyr, cyn iddi gael ei symud i'r Senedd. Parhaodd ein partneriaeth gyda Pobl yn Gyntaf Caerdydd, grŵp hunan-sefydledig ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, wrth iddynt barhau â digwyddiad Meddiannu llwyddiannus y llynedd, y tro yma gyda'i chwaer-grŵp o Fro Morgannwg. Roedd grwpiau Pobl yn Gyntaf o Dorfaen, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf yn bresennol, ac anfonodd Archifau Gwent rhywun draw i oruchwyllo.



Ar Ddiwrnod Plant yn Meddiannu, daeth disgyblion ysgol arbennig Trinity Fields, Ystrad Mynach, draw i'n gweld ni a mwynhau'n fawr iawn! Dywedodd athro ar ôl yr ymweliad: *Es i fyny i weld y dosbarth yn yr wythnos ac roedd pob disgybl yn canu clod y diwrnod gwyhych yr oeddent wedi'i gael. Roeddent wedi dwlu arno - diolch am roi o'ch amser a pharatoi gweithgareddau ffantastig a hynod bwysig ar eu cyfer.*

Mae rhai disgyblion wedi dychwelyd ers hynny ar leoliadau profiad gwaith, yn yr un modd ag Ysgol y Deri ym Mhenarth, yr ysgol a wnaeth Meddiannu y llynedd, sydd hefyd wedi mynychu gweithdy ar lan y môr wrth baratoi project ar gyfer Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig. Mae cyffroi'r plant gydag adnoddau gwreiddiol wedi bod yn wych i ni i gyd, a bwriadwn ymestyn y cyfle i bob ysgol arbennig yn ein rhanbarth.

Ein VIP rhyngwladol eleni oedd Eric Bush, Pennaeth swyddfa Llundain yr Ynysoedd Cayman, oedd yng Nghymru i hyrwyddo ymgyrch yr ynys i rannu gwybodaeth am y gwladychwyr gwreiddiol. Maent yn gobeithio dod o hyd i ddisgynyddion y dynion a gyrhaeddodd yn Jamaica o fyddin Cromwell ym 1658, yr oedd un ohonynt yn Gymro o'r enw Waters neu Walters.



Yn ogystal, croesawom yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, a Peter Owen, pennaeth MALD. Trefnwyd ymweliad ar wahân ar gyfer David Melding AC, a daeth Wayne David AS acw i gynnal gwaith ymchwil ar ei lyfr nesaf ar Morgan Jones, AS Caerffili rhwng y ddau ryfel.

Croesawyd ymweliadau grŵp ar gyfer teithiau o'r adeilad ac arddangosfeydd dogfennau i 20 grŵp, gan gynnwys Valley Kids Penyreglyn yn rhan o fenter Treftadaeth Ddisylw CADW. Mae'r project Rhondda hwn yn gweithio gyda phobl ifanc i ymchwilio i hanes Pwll Glo Fernhill ger Blaenrhondda. Aeth yr ymweliad â nhw y tu ôl i'r llenni, a'u cyflwyno nhw i ystod o ddogfennau o'r pwll glo er mwyn paratoi ac ymchwilio ar gyfer eu cloddfa archeolegol fydd yn cael ei chynnal yn y safle yn ystod hanner tymor mis Mai. Uchafbwynt arbennig oedd yr her a roddwyd i'r grŵp oedd yn cynnwys symud cynllun enfawr o'r ystafell ddiogel i'r stiwdio gadwraeth. Daeth Cymdeithas Tai Cadwyn yn Nhrelái â phreswylwyr acw yn rhan o broiect treftadaeth yn ymwneud â'r ystâd dai newydd ar safle melin bapur gynt. Roedd cyn-weithwyr y felin wedi synnu o weld y papur trwsio yn y storfa gadwraeth. Cynhaliodd project Lefelau Byw RSPB ar wastatiroedd Gwent ddigwyddiad crefftau yn yr Archifau, yn seiliedig ar y cyfnod Mesiolithig i roi gwybodaeth i gyfranogwyr am hanes y gwastatiroedd. Ni chafodd unrhyw ddogfennau eu niweidio, ond roedd cyfle i blygu helyg, creu potiau clau a phaentio ogofau (ar daflen). Croesawyd hefyd aelodau o Gymdeithas Hanes Leol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Ardal, Dyddiau Gwyrdd Innovate Trust, Cymdeithas Treftadaeth Diwydiannol Oxford House, Clwb Hanes Teuluol Pobl yn Gyntaf Caerdydd, Recovery Cymru a Sefydliad y Merched Llwynbedw, ynghyd â Chlwb Tennis Bwrdd Cymuned Dinas Caerdydd ac Ymddiriedolaeth Rygbi CF10. Denodd y digwyddiad Drysau Agored blynyddol 43 o ymwelwyr i gael cyflwyniad i broiect Gwaed Morgannwg i gatalogio a chadw cofnodion yn ymwneud â glo. Mae darlithoedd cyhoeddus gan David Jenkins, Ann Konsbruck ac Andy Kendall o Gymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd wedi denu ymwelwyr.







Mae wedi bod yn flwyddyn benodol brysur o ran ymweliadau addysgol gyda 32 o ddosbarthiadau o 20 ysgol, cyfanswm o 1,364 o fyfyrwyr, yn mynychu gweithdai a theithiau, sydd ymhell dros nifer y llynedd. Mynychodd 74 o fyfyrwyr prifysgol gyflwyniad i ffynonellau archifol yn berthnasol i'w hastudiaethau nhw, pensaernïaeth, y Gymraeg a hanes.

Mae dros 8,500 o bobl wedi ymweld â'r adeilad yn ystod y flwyddyn. Mae dros 11,000 o eitemau wedi'u cyflwyno ar gyfer y 2,578 ymweliad â'r ystafell chwilio ac mae dros 3,000 o unigolion wedi mynychu digwyddiadau neu ymweld fel rhan o grŵp. Rydym wedi ymateb i 3,629 ymholiad o bell.



Mae'r holl ymgysylltu actif hwn yn cymryd amser ac adnoddau staff. Gan fod cyllidebau'n dynnach nac erioed, rydym yn manteisio ar bob ffrwd cyllid posibl er mwyn cynnal niferoedd staff a buddsoddi i sgiliau'r dyfodol. Llwyddom i ddenu Hyfforddai Corfforaethol, y talwyd amdano drwy gronfa brentisiaeth Cyngor Caerdydd, ac rydym yn bartner arweiniol i Uchelgais Diwylliannol, project cenedlaethol a reolir gan CCSkills ac sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, fydd yn cynnig hyfforddiant yn y sector treftadaeth i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig. Treuliodd y ddau cyntaf yng Nghaerdydd 6 mis yn yr Archifau yn gweithio tuag at NVQ Lefel 2 mewn Diwylliant a Threftadaeth, cyn symud ymlaen i leoliadau eraill yn y ddinas. Mae swyddi rhan amser neu dymor byr eraill wedi'u hariannu drwy Gontractau leuenctid a ffrydiau Mynediad i Waith. Mae'n bosibl y bydd ymwelwyr yn cwrdd a gwynebau anghyfarwydd, ond gallent ddisgwyl yr un lefel gwasanaeth cwsmeriaid uchel.

Mae gwirfoddolwyr yn rhan hanfodol o'r tîm, yn cynhyrchu cynnwys cyfryngau cymdeithasol, yn digideiddio casgliadau, glanhau dogfennau ac ychwanegu manylion at gatalogau. Mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu 7,656 awr i'r gwasanaeth eleni, sydd gyfystyr a 4.5 aelod o staff amser llawn. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 361 awr gan fyfyrwyr ar gyrsiau archif dysgu o bell, a 479 awr gan fyfyrwyr cadwraeth Prifysgol Caerdydd. Gwnaeth un o'n gwirfoddolwyr ddathlu 20 mlynedd o wasanaeth gyda ni, sy'n hirach na sawl aelod o staff.




O ran cadwraeth a chatalogio, mae'r blaenoriaethau wedi newid ychydig fel bod modd dod o hyd i gofnodion o ddiddordeb posibl yn yr Ymchwiliad Annibynnol i Gamdrin Plant yn Rhywiol. Mae catalogio casgliadau mawr yn dibynnu'n llwyr ar gyllid allanol gan fod y gostyngiad mewn niferoedd staff proffesiynol, sydd eu hangen i fodloni ardrethi busnes mwy, yn golygu nad oes modd rhyddhau archifwyr o fusnes bob dydd mynediad a derbyn i weithio ar brojectau tymor hirach. Gwneir pob ymdrech i sicrhau cyllid o'r fath ac i sicrhau bod casgliadau ar gael yn y cyfamser, dan oruchwyliaeth fanwl. Roeddem yn falch iawn o dderbyn Gwobr John Armstrong ar gyfer Archifau Trafnidiaeth gan Gyngor Archifau Busnes. Gyda'r grant, bydd archif yr Ymddiriedolaeth Briffyrdd yn cael ei chatalogio'n llawn.





Rhoddodd gwerthwr llyfrau, wrth glirio ei swyddfa pan roedd yn ymddeol, lyfr llys i ni ar gyfer Maenor Loughor, Drenwydd yn Notais, eitem gynnar ac anarferol ar gyfer y blynyddoedd rhwng 1584 ac 1813 ac ar gyfer amryw bentreflysoedd a barwniaid (D1612). Mae'r gyfrol yn cynnwys tudalennau o feintiau gwahanol, ac mae'n debyg mai pedwar llyfr ydoedd yn wreiddiol, wedi'i wneud yn un gyfrol yn y 19ed ganrif.

Rhoddodd aelod o'r teulu gasgliad bychan a grëwyd gan Henry Lewis, Ficer Ton Pentre gynt. Ganed Henry ym 1881, a buodd yn gwasanaethu gyda'r Ambiwylans Maes, Corfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin ym Mhalesteina yn ystod y Rhyfel Mawr. Mae ei ddyddiadur o 1917 a llun ohono mewn grŵp o filwyr ym 1918 wedi'u derbyn, ynghyd â llun arall o aelodau ARP, gan gynnwys Henry, ym 1940.






Daeth y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a lansiwyd yn 2001, i ben yn 2018. Rhoddodd un o 4 o hybiau Caerdydd, Hyb STAR (Sblot, Tremorfa, Adamsdown a'r Rhath) gofnodion gan gynnwys cylchlythyron cymunedol, arolwg ac adroddiad o'r mannau agored yn ardal Cymunedau yn Gyntaf Sblot a Thremorfa, a chopi o 'Adamsdown Song' (D1570).

Rydym wedi derbyn casgliad mawr o gofnodion yn adlewyrchu gweithgareddau cymdeithas ffilatelig leol hefyd. Sefydlwyd Cymdeithas Ffilatelig Caerdydd a De Cymru ym 1899, a bellach roedd pobl yn ei hadnabod fel Cymdeithas Ffilatelig Caerdydd. Ei nod yw hyrwyddo'r broses o astudio ac arfer ffilateleg o bob cyfnod o'r ardal ddaearyddol a gynrychiolir gan ardal ehangach Caerdydd, ac i gynnig cyfleusterau i rannu gwybodaeth a deunyddiau sy'n berthnasol i astudio o'r fath. Ymhlith y cofnodion a dderbyniwyd mae cofnodion cyfarfodydd, gohebiaeth, rhaglenni a chyfrifon sy'n dechrau ym 1939 (D1602).

Mae dwy swydd broffesiynol llawn amser, a ariennir gan Ymddiriedolaeth Wellcome, yn cefnogi Gwaed Morgannwg, ein prif broject catalogio a chadwraeth presennol. Mae Gwaed Morgannwg yn dod i ddiwedd ei ail flwyddyn ac mae cofnodion catalog cychwynnol ar gyfer rhan fwyaf y casgliadau, gan gynnwys oddeutu 8,000 o gynlluniau a 5,400 darlun plât gwydr negatif. Er mwyn i'r rhain bara'n dda, mae arolwg cyflwr wedi'i gyflawni, a chynllun triniaeth er mwyn trwsio wedi'i greu, a chynwysyddion wedi'u dylunio ar gyfer platiau sydd wedi torri. Mae hyfforddeion yn glanhau, yn ail-lapio ac yn sganio'r lluniau negatif. Maent hefyd yn creu disgrifiadau catalog manwl ac yn ysgrifennu blogiau.



Mae gwirfoddolwyr y Gymdeithas Gelfyddydau wedi glanhau cynlluniau a chyfrolau, tra bod myfyrwyr cadwraeth Prifysgol Caerdydd wedi cysoni cyfuno llyfrau toriadau papur newydd ac ar hyn o bryd yn helpu i drwsio cynllun mawr ar y bwrdd wal. Mae gwirfoddolwyr eraill wedi cyfrannu mynegeion a rhestri manwl o'r gyfres Cylchgronau Ocean and National, taflenni a phamffledi gwybodaeth glofeydd, a toriadau papur newydd yn trafod lles glowyr, yn aml yn creu blogiau ar y canfyddiadau. Mae cyn-aelodau staff NCB wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i wirio a gwella disgrifiadau o gynlluniau a lluniau. Rydym wedi creu cysylltiadau gwerthfawr gydag ystorfeydd sydd â chasgliadau perthnasol gan gynnwys y Pwll Mawr, Canolfan Gofnodion Awdurdod Glo, Llyfrgell Glowyr De Cymru, Amgueddfa Glowyr De Cymru ac Archifau Richard Burton.



Mae negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo'r project ac wedi creu diddordeb mawr. Ymhlith y pynciau perthnasol oedd gwaith cadwraeth, trychinebau, baddonau pen-pwll a materion cymdeithasol a llesiant o'r 1920au a 30au o Gylchgronau Ocean and National. Roedd y wasg a'r cyfryngau lleol yn benodol ynghlwm wrth stori'r ffotograffydd anhysbys o gyfres o luniau a drosglwyddwyd o archifau yn Fife. Diolch i'r cyhoeddusrwydd, daeth i'r amlwg mai Mr Leslie Price o Bentre oedd y ffotograffydd.

Roedd yn gyn-löwr ac yn ffotograffydd amatur brwd. Roedd y stori ar Radio Wales, BBC Wales Today a BBC Wales Breakfast, ar Wales Online, ar dudalen flaen y Western Mail ac mewn sawl papur newydd lleol. Cyfwelwyd â'r Archifydd Project ar Radio Wales a Wales Today. Bu i staff project hefyd gyflwyno'u gwaith yn Y Lle Hanes, Fforwm blynyddol Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru, i Gangen Llundain Cymdeithasau Hanes Teuluol Cymru, ac mewn erthygl ar gyfer cylchlythyr Cymdeithas Archifau a Chofnodion.

Rydym yn aml yn cael ein cynnwys yn y wasg leol a Wales Online, Radio Cardiff a Radio Cymru. Mae cwmnïau teledu wedi ffilmio staff a dogfennau yn yr Archifau ar gyfer pynciau gan gynnwys rhaglen ddogfen ar derfysgoedd hil 1919, Dociau Caerdydd, epidemig fflw 1918/19, casgliadau Archif Menywod Cymru a rhaglenni gan gynnwys Home Front Heroes, Long Lost Family a The One Show. Mae'r proffil yn uchel ac mae'r galw am wasanaethau'n tyfu.

Mae ceisiadau wedi'u cyflwyno ar gyfer projectau i'r dyfodol i gatalogio casgliadau â blaenoriaeth ac rydym yn dal i ymchwilio cyfleoedd i godi arian. Rydym wedi cyfrifo'r costau ynghlwm wrth dderbyn a storio casgliad bychan, ac wedi ychwanegu nodyn o'r swm i'r ffurflen dderbynneb wreiddiol. O ganlyniad i hyn, rydym wedi derbyn ychydig o roddion. Rydym yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i sefydlu gwasanaeth talu ar-lein am bethau megis ymchwil, cyhoeddiadau a chadwraeth. Mae'r Gwarchodwr bellach yn gymwys fel Adferwr-Cadwraeth Achrededig ICON, sy'n ychwanegu at ei gwerth o ran creu incwm. Mae'r peiriant creu bocsys yn rheolaidd yn creu archebion allanol. Cynhelir yr egwyddor o fynediad am ddim i'r safle, er bod y cytbwysedd rhwng codi arian a chynnig y gwasanaeth yn gymhleth weithiau.

Fel arfer, cyfeirir unrhyw un sydd am gael rhagor o fanylion ar waith ein gwirfoddolwyr ac aelodau staff, gan gynnwys rhestr lawn o'r derbyniadau, at adroddiadau Cydbwyllgor Archifau Morgannwg ar wefan Cyngor Caerdydd: [Cyfarfodydd ac Agendau Cydbwyllgor Archifau Morgannwg](#).



|                                                                                     |                                                                                |                                                                                       |                                                                                  |
|-------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------|
|  | <b>Archifau Morgannwg</b><br>Clos Parc Morgannwg<br>Cardiff<br>CF11 8AW        |  | <b>029 2087 2200</b>                                                             |
|  | Glamro@caerdydd.gov.uk                                                         |  | <a href="http://www.facebook.com/glamarchives">www.facebook.com/glamarchives</a> |
|  | <a href="http://www.archifaumorgannwg.gov.uk">www.archifaumorgannwg.gov.uk</a> |  | @GlamArchives                                                                    |